Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

2020-2024

Diweddariad o'r Cynllun 2020-2021

Cyhoeddwyd 2022

Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2020 - 2024

Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cynrychioli ymrwymiad y Gwasanaeth i herio'r rhwystrau i gydraddoldeb a chynhwysiant ac yn cyfrannu at ein hamcanion strategol allweddol:

Blaenoriaeth 1– Bywyd ac Iechyd

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 1

Lleihau tanau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth atal gyflawn sy'n targedu'n benodol y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru y gellir dangos eu bod mewn mwy o risg oherwydd fod ganddynt un neu fwy o'r nodweddion arbennig.

Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 2

Trwy ein harferion, rhaglenni a chynlluniau cyflogaeth ein hunain, ein nod yw cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall gael anhawster cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru.

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 3

Byddwn yn datblygu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn arddangos eu hymroddiad i hybu cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.

Blaenoriaeth 3 - Addysg

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 4

Trwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra a'u darparu yn unigol ac ar y cyd, i alluogi pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel risg eu hunain rhag tân a pheryglon eraill trwy gydol gwahanol gyfnodau yn eu bywydau.

Blaenoriaeth 4 - Diogelwch Personol

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 5

Lleihau y risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau i bobl yng Ngogledd Cymru sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol trwy ddarparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer atal ac amddiffyn ac ymateb brys i ddigwyddiadau tân ac achub.

Blaenoriaeth 5 – Cyfranogaeth a Chyfathrebu

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 6

Trwy fod yn agored ac yn atebol am yr hyn a wnawn a'r hyn a gynllunir, annog mwy o bobl i ymwneud gyda'r broses o benderfynu sut mae'r gwasanaethau tân ac achub yn cael eu cynnig yng Ngogledd Cymru a cheisio cynyddu'r ystod o bobl sy'n cyfrannu at y broses honno.

Blaenoriaeth 1 – Bywyd ac Iechyd

Blaenoriaeth Cydraddoldeb 1

Lleihau tanau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig drwy strategaeth atal gyflawn sy'n targedu pobl benodol sy'n byw yng Ngogledd Cymru ac a welir i fod mewn mwy o risg gan eu bod yn rhannu un neu fwy o nodweddion a warchodir.

Rhesymau	• Datblygu ymhellach y dealltwriaeth a'r gwybodaeth am y ffactorau sy'n cyfrannu at wneud person yn fwy bregus i gael tanau yn y cartref gan ddefnyddio hyn i ddarparu negeseuon wedi eu targedu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau a cheisio dylanwadu a newid ymddygiad. • Hybu ymgyrchoedd diogelwch i sicrhau bod meysydd a nodwyd â'r risg mwyaf yn cael eu blaenoriaethu. • I ddeall yn well yr anghenion a chynyddu diogelwch y cyhoedd sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru. Yn arbennig, y rhai a welir i fod mewn mwy o risg gan fod ganddynt un neu fwy o nodweddion a warchodir neu o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol.	
Gweithred	Adnabod grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli amrywiaeth lawn y dinasyddion sy'n byw o fewn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a datblygu'r holl ddulliau o gyfathrebu gyda'r rhai sy'n fwy bregus ac mewn perygl, yn uniongyrchol neu drwy weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae datblygu perthynas gydag asiantaethau partner all gyfeirio'r rhai sydd fwyaf mewn risg o fewn y gymdeithas i'r GTAGC i gael Archwiliad Diogel ac Iach yn ddyletswydd graidd i bob Rheolwr Partneriaeth. Mae'r rhai mwyaf mewn risg o fewn y gymdeithas yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Mae'r Gwasanaeth yn targedu asiantaethau mewn ymgais i gael mwy o atgyfeiriadau risg uchel ar gyfer Archwiliad Diogel ac Iach rhad ac am ddim.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Cyflwynodd Covid gryn heriau i GTAGC, yn cynnwys gostyngiad yn yr atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill. Mae rhaglen o ail-ymgysylltu gyda holl asiantaethau partner wedi cychwyn.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Mae disgwyl i'r rheolwyr partneriaeth ddatblygu dealltwriaeth o broffil y gymuned er mwyn dod i adnabod anghenion y cyhoedd yn well a gweld beth yw'r dulliau gorau i'r Gwasanaeth wella'u diogelwch.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae GTAGC yn parhau i ystyried risg yn seiliedig ar y saith ffaith gyfrannol a nodwyd yn Adroddiad Tasglu y Prif Swyddog Tân 2007 (adolygwyd yn 2009). Bydd Rheolwyr Partner yn nodi asiantaethau partner addas a pherthnasol sydd â mynediad at y gynulleidfa darged.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes a chodi ymwybyddiaeth a hybu diogelwch tân yn eu hiaith ddewisol. *	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae GTAGC yn parhau i ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes drwy'r cyfryngau cymdeithasol i dynnu eu sylw at y dewisiad iaith ar wefan GTAGC.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân

Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth		
Blaenoriaeth Cydraddoldeb 2 Trwy ein harferion, rhaglenni a chynlluniau cyflogaeth ein hunain, ein nod yw cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall gael anhawster cael mynediad cyfartal i fyd gwaith. Byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Ngogledd Cymru.		
Rheswm	**Blaenoriaeth Cydraddoldeb 2** • Cynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu ym mhob sector o'r Gwasanaeth Tân ac Achub.	
Gweithred	Cynnal digwyddiadau gweithredu cadarnhaol i annog ymgeiswyr o grwpiau isel eu cynrychiolaeth	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	Mae digwyddiadau gweithredu cadarnhaol wyneb yn wyneb wedi'u gohirio yn ystod COVID-19. Cynhaliwyd dyddiau/digwyddiadau recriwtio rhithwir a oedd yn ymgorffori gweithredu cadarnhaol yn ystod y pandemig. Yn awr fe hysbysebir pob swydd gan gynnig gweithio ystwyth er mwyn denu ymgeiswyr o gronfa ehangach a gwella'r amrywiaeth o fewn y gweithlu. Cynhyrchwyd fideo ddwyieithog fer yn amlinellu'r gyrfaoedd a'r swyddi o fewn y Gwasanaeth. Defnyddiwyd y fideo yn ystod Diwrnod Agored Rhithiol y Gwasanaeth a bu AD yn rhan o sesiwn Facebook fyw i ateb cwestiynau am yrfaoedd a recriwtio. Mae'r fideo'n hybu'r gwahanol ddewisiadau gyrfa o fewn y Gwasanaeth.	Pennaeth AD
Gweithred	Parhau i ddadansoddi ac adolygu'r broses recriwtio a dewis, i sicrhau ein bod yn cynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr.	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	Yn gyffredinol, mae gweithgareddau recriwtio wedi cael eu gohirio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Adolygwyd dulliau eraill o gyfweld ar-lein, megis Skype a WebEx, ac ystyriwyd a gweithredwyd opsiynau ar gyfer asesiadau ar-lein. Defnyddiwyd fideo-gynadledda a digwyddiadau Facebook byw i ymgysylltu gydag ymgeiswyr posib i gynorthwyo gyda'r gweithredu cadarnhaol.	Pennaeth AD
Gweithred	Adolygu'r data monitro cyflogaeth blynyddol i weld patrymau a chynllun parhad.	Pennaeth AD Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Gwelwyd cynnydd yn yr amrywiaeth o ymgeiswyr drwy gynnig gweithio ystwyth ar gyfer swyddi o fewn y Gwasanaeth e.e. denwyd ystod amrywiol o ymgeiswyr o ardal ehangach ar gyfer y swydd Ymgynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Lles. Monitro data cydraddoldeb a gasglwyd fel rhan o'r prosesau recriwtio a gymerwyd ar bob cam ar gyfer prosesau mwy e.e. y broses Prentisiaethau Diffoddwyr Tân ac Arweinwyr y Dyfodol, er mwyn helpu i gynghori gweithgareddau ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol pe gwelwyd patrymau.	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	Mae Adroddiad Monitro Cyflogaeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i fod i'w chwblhau a'i rhoi ar y wefan erbyn Mehefin 2021. Bydd yr adroddiad hwn yn sail ar gyfer cynllun parhad, ac yn gatalydd i adnabod y rhai sy'n gweithio i ni. Mae hyn yn	Ymgynghorydd Cydraddoldeb

	wybodaeth ddefnyddiol sydd wedi ei ddosbarthu yn ôl oed, anabledd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r adroddiad yn ein helpu i adnabod tan-gynrychiolaeth ymysg staff o fewn y gwahanol adrannau gwaith (h.y. staff Gweithredol, Cefnogi a'r Ystafell Reoli).	
Gweithred	Sefydlu a chynnal gweithdai ar gyfer pobl o grwpiau lleiafrifol er mwyn eu hannog i ymgeisio am swyddi gwag; gweithredu hyn mewn partneriaeth gyda chyflogwyr eraill o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i bob aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru ond mae'r gwaith wedi cael ei oedi oherwydd Covid-19. Mae'r gwaith wedi dechrau ac fe bery i fod yn flaenoriaeth gyda'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddod.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Gweithred	Gwneud cysylltiadau â cholegau lleol a chynnig mewnbwn GTA i gyrsiau gwasanaeth y cyhoedd, gyda'r bwriad o ymgysylltu'n ehangach ac yn fwy rheolaidd i ddarparu gwybodaeth a baratowyd o flaen llaw i'w safoni. Gwneud cysylltiadau a mynychu digwyddiadau recriwtio gyda'r bwriad o ymgysylltu gyda chynulleidfa ehangach. Datblygu fformat safonol ar gyfer y math yma o ymgysylltiad er mwyn sicrhau fod neges gyson a chynhwysol yn cael ei chyflwyno ar bob cyfle. Adolygu'r fformat yn unol â'r adborth a gasglwyd ac adolygu'r nifer a'r lleoliadau'r ysgol/colegau/digwyddiadau a fynychwyd.	Pennaeth AD Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Profwyd peth anhawster i ymgysylltu gyda cholegau lleol a mynychu digwyddiadau recriwtio o ganlyniad i'r cyfnod clo a chyfyngiadau Covid-19. Mae'n debygol y bydd digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn rhithiol. Bu presenoldeb ar-lein mewn digwyddiadau ysgol/colegau yn ystod Covid-19. Cynhaliwyd dyddiau agored rhithiol drwy Facebook gan gynnwys recriwtio. Cynhyrchwyd fideo ddwyieithog fer yn amlinellu'r gyrfaoedd a'r swyddi o fewn y Gwasanaeth i'w defnyddio'n ystod ffeiriau recriwtio rhithiol. Mae'r fideo'n hyrwyddo'r gwahanol ddewisiadau gyrfa o fewn y Gwasanaeth. Defnyddiwyd y fideo yn ystod ffeiriau gyrfaoedd rhithiol gyda'r Ganolfan Swyddi a Swyddi Cymraeg Prifysgol Bangor, gan gymryd lle y ffeiriau wyneb yn wyneb. Mae hyn yn hyrwyddo'r gwahanol yrfaoedd sydd ar gael. O ganlyniad i'r cyfyngiadau ynglŷn â ffeiriau swyddi wyneb yn wyneb, treialwyd dulliau eraill o ymgysylltu gyda recriwtiaid posibl, yn cynnwys sesiwn Facebook byw ar gyfer un o'n swyddi gwag oedd yn cael ei hail-hysbysebu.	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	Hyd at gyfyngiadau Covid a arweiniodd at y galw i weithio gartref, mae GTAGC wedi cefnogi rhaglen profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc na fyddent fel arall yn debygol o fod wedi ymgysylltu gyda chyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae'r rhaglen hon a gyflwynwyd mewn partneriaeth â darparwr addysg yng Ngogledd Cymru wedi gweld pobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth a chyflogaeth llawn amser mewn ystod eang o feysydd, ac yn nodi fod eu profiad o weithio gyda GTAGC wedi cyfrannu at y cyflawniad hwnnw. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yma wedi ei oedi tra bo'r mwyafrif o staff GTAGC yn gweithio o gartref.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Datblygu strategaeth gyfathrebu fewnol i egluro'r gwahaniaeth rhwng gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol er mwyn gwrthweithio barn rhai bod unigolyn wedi cael ei gyflogi/ddyrchafu am ei bod yn ferch/BME/LHDT. Gweithio gyda'r Cyrff Cynrychiadol i gefnogi gwaith y Gwasanaeth yn hyn o beth er mwyn atgyfnerthu'r neges.	Pennaeth AD

Datblygiad 20/21	Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd gyda mewnbwn gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r adran Cyfathrebiadau Corfforaethol.	Pennaeth AD
Gweithred	Bydd holl aelodau Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân GTAGC yn dod yn Bencampwyr Amrywiaeth y Gwasanaeth gan arwyddo Addewid Pencampwyr. Anogir yr aelodau i ddathlu nodweddion a warchodir (h.y. LHDTC+, Cyfeillion LHDTC+ ac Anabledd) ac fe'u hanogir i fynychu a hyrwyddo digwyddiadau cenedlaethol yn ystod y flwyddyn. Parhau i hyrwyddo gwaith Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân. Paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer y Grŵp Gweithlu Cynhwysol am y lefel o ddiddordeb yn y mentrau hyfforddi a mentora, wedi eu rhannu yn ôl y nodweddion a warchodir.	Aelodaeth GCGT Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Oherwydd Covid-19, gohiriwyd cyfarfod Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân mis Mai. Roedd cyfarfod nesaf y grŵp yn rhithiol ym mis Hydref. Mae gwaith ar Strategaeth Wella Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân 2019-2022 wedi symud ymlaen ac mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru. Trafodwyd yr eitem hon yng nghyfarfod mis Hydref. Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddaru ymhellach cyn y cyfarfod rhithiol nesaf ym mis Chwefror 2021.	Aelodaeth Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân
Datblygiad 20/21	Mae'r rhaglenni Hyfforddi a Mentora yn y broses o gael eu datblygu ac fe'i gwelir ar restr amcanion adrannol ar gyfer 2021/2022. Cyflwynir cynlluniau Hyfforddi a Mentora yn gyffredinol fel proses gyfrinachol; mae'n bosibl na fydd metrigau sy'n gysylltiedig â nodweddion a warchodir ar gael ymhob achos ond byddant yn cael eu casglu lle bo'n bosibl ac fe adroddir arnynt.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Cynnal dadansoddiad o'r bylchau o amgylch y ddarpariaeth hyfforddiant rheoli presennol. Archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd ac adnabod y rhai sy'n bodloni gofynion pob lefel reoli o fewn y sefydliad orau yn seiliedig ar ganlyniadau'r dadansoddiad o'r bylchau. Trefnu i gyflwyno'r hyfforddiant a'r gwerthusiad dilynol o'r hyfforddiant hwnnw.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Yn dilyn y dadansoddiad o'r bylchau mewn darpariaeth hyfforddiant, mae dau becyn dysgu electronig wedi eu creu ac wedi eu hychwanegu at System Reoli Dysgu'r Gwasanaeth. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys elfennau amlgyfrwng rhyngweithiol ac yn cynnwys yn benodol "herio ymddygiad anaddas" a "chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant". Bydd cwblhau'r hyfforddiant gorfodol hwn yn cael ei fonitro ar draws y gweithlu.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Dylai uwch reolwyr arwain drwy arddangos esiampl gadarnhaol a dylent allu atgyfnerthu ymddygiad addas, herio bwlio ac aflonyddwch, delio gyda gwrthdaro a gallu cynnal trafodaethau anodd fel rhan o'u swydd. Sicrhau ein bod yn cynnig hyfforddiant ar sgiliau rheoli sy'n galluogi ein staff i reoli timau amrywiol a hybu diwylliant cynhwysol yn well.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae prosesau dethol a datblygu o fewn y Gwasanaeth wedi eu halinio'n gryf gyda gwerthoedd craidd y sefydliad, fframwaith arweinyddiaeth yr NFCC a 'rhinweddau a phriodoleddau personol' penodol blaenorol ar gyfer arweinwyr a rheolwyr gwasanaeth tân ac achub. Mae sefyllfaoedd canolfan asesu a datblygu yn cynnwys mesur ymddygiad wedi ei alinio â chydraddoldeb, amrywiaeth a gonestrwydd, mewn gweithgareddau chwarae rôl ar sail un i un a grŵp gydag actorion wedi eu hyfforddi. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn galluogi ymgeiswyr i brofi 'sgyrsiau anodd' gan ddangos drwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad gymhwysiad addas o werthoedd crai ac ymddygiad arweinwyr.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad

Gweithred	Deall anghenion gwahanol ein staff, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu penodol, wrth gynllunio a gweithredu prosesau sy'n ymwneud â datblygiad a gwelliant gan wneud Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob proses.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Pan welir fod yna anghenion dysgu penodol trwy y prosesau ymgeisio ar gyfer dilyniant a digwyddiadau datblygiad mewnol, gwneir addasiadau i gefnogi'r ymgeiswyr/dysgwyr. Mae'r asesiadau effaith ar gydraddoldeb yn y broses o gael eu hadolygu ar gyfer digwyddiadau datblygu mewnol a gweithgareddau dilyniant.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Codi ymwybyddiaeth am y Gwerthoedd Craidd newydd a'u hyrwyddo ledled y Gwasanaeth.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae'r Gwerthoedd Craidd ar eu newydd wedd wedi eu rhannu a'u gwreiddio o fewn y Gwasanaeth, pwysleisiwyd eu pwysigrwydd yn ystod pandemig Covid-19 drwy gyfrwng y cyhoeddiad Crynodeb Wythnosol er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i ddathlu cynhwysiant.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad

Blaenoriaeth 2 – Cyflogaeth		
Blaenoriaeth Cydraddoldeb 3 Byddwn yn datblygu diwylliant cynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn arddangos eu hymroddiad i hybu cydraddoldeb a chefnogaeth ar gyfer gweithlu teg a chynhwysol.		
Rheswm	**Blaenoriaeth Cydraddoldeb 3** • Annog yn fwriadol i'r staff gweithredol benywaidd gymryd rhan yn y broses ddyrchafu. • Ymgysylltu â chyflogwyr o grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli gyda'r bwriad o adnabod unrhyw rwystrau posibl a welant i ddatblygu o fewn y Gwasanaeth.	
Gweithred	Codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff o'r rhaglenni hyfforddi a mentora sy'n bodoli a sut i gael cefnogaeth.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae swyddogion System Ddyletswydd Hyblyg a Chefnogi Gorsafoedd wedi cwblhau diwrnodau datblygu hyfforddi a mentora gan geisio cael datganiad o ddiddordeb gan unigolion i gwblhau cyrsiau hyfforddi a mentora, cymwysterau a swyddi o fewn y Gwasanaeth.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant cydraddoldeb ymhlith aelodau o Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân a threfnu pecyn hyfforddiant addas (argymhellwyd gan Archwiliad Strategaethau Gwelliant Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân – i gynnwys rhagfarn anymwybodol, ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hyfforddiant ar fuddion gweithlu cynhwysol). Ymestyn y dadansoddiad hwn i uwch staff ac yna creu a datblygu cyfres o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr a staff allweddol ar themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Cwblhawyd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Mae'n ofyniad gorfodol i holl bersonél y Gwasanaeth gwblhau modiwlau LearnPro, "herio ymddygiad anaddas" a "chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant". Rhaid i staff sy'n rheoli gwblhau themâu ychwanegol fel y nodir gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Nodwyd y themâu ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn benodol ar gyfer aelodau Grŵp Cynhwysol y Gwasanaeth Tân ac uwch reolwyr. Gellid cynnal yr hyfforddiant hwn ochr yn ochr â hyfforddiant y rheolwyr er mwyn sicrhau fod presenoldeb amrywiol yn y sesiynau hyfforddiant fyddai'n cyfoethogi'r profiad. Nid yw hyn wedi datblygu ymhellach o ganlyniad i Covid-19.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae modiwlau LearnPro 'Herio Ymddygiad Annerbyniol' a 'Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' wedi eu cwblhau ac maent ar gael ar-lein ar gyfer yr holl staff i'w cwblhau.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Gweithred	Darparu hyfforddiant ar sgiliau rheoli fydd yn arfogi ein staff i reoli timau amrywiol a hybu diwylliant cynhwysol yn well.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Gofyniad gorfodol i holl bersonél y Gwasanaeth i gwblhau'r modiwlau LearnPro dan y teitlau 'Herio Ymddygiad Annerbyniol' a 'Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' er mwyn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yng nghyswllt rheoli timau amrywiol a hybu diwylliant cynhwysol.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad

Gweithred	Adolygu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob cam o'r broses ddyrchafu, a chymryd y camau angenrheidiol os nodir unrhyw faterion.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Adolygwyd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Profion Technegol Rheolwyr Goruchwyliol a Chanolig a'r Canolfannau Datblygu Asesiadau. Mae prosesau panel dyrchafu drafft wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb diwygiedig wedi cael ei greu.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Sicrhau fod yr holl bersonél yn ymwybodol o ofynion pob cam o'r broses ddyrchafu gan allu adnabod pa broses sydd angen iddynt ei defnyddio, yn unol â'u hamgylchiadau cyfredol. Parhau i gasglu data ynglŷn â'r rhai sy'n mynd i'r broses ddyrchafu a'r rhai sy'n ei chwblhau'n llwyddiannus, gan dynnu sylw at unrhyw fater posibl os a phan fo'r angen.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae meini prawf cymhwysedd a'r gofynion ar gyfer pob cam o'r prosesau dyrchafu newydd wedi cael eu datblygu'n ddiweddar; mae'r meini prawf hyn wedi cael eu treialu ar gyfer nifer o ddyrchafiadau dros dro'n ddiweddar.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob cam o'r rhaglen hyfforddi a mentora gyfredol, a gweithredu'n addas os cyfyd unrhyw fater.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Nid oes gan y Gwasanaeth raglen hyfforddi a mentora ffurfiol yn ei lle, wrth i'r rhaglenni hyn gael eu datblygu, bydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn gam ffurfiol o fabwysiadu Polisi neu Weithdrefn y Gwasanaeth.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Adolygu safonau'r polisi ymddygiad fydd yn ymgorffori'r polisïau a restrir isod fel ffynhonnell berthnasol i'r holl staff. • Cwynion • Disgyblaeth • Gwrth-fwlio ac aflonyddu • Urddas yn y gwaith • Cydraddoldeb • Rheoli Presenoldeb	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	Mae'r adolygiad wedi cychwyn ond o ganlyniad i Covid-19 fe fydd peth oedi yn natblygiad pellach y prosiect hwn. Mae gwaith wedi ail-gychwyn yng nghyswllt yr adolygiad o bolisïau Safonau Ymddygiad, Cwynion a Disgyblaeth ac mae'r gwaith yn mynd ymlaen. Mae'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y broses o gael ei adolygu.	Pennaeth AD

	Tal Cyfartal • Gweithio i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chreu cynllun gweithredu cyflog rhwng y rhywiau.	
Gweithred	Parhau i gynnal Archwiliad y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn unol â deddfwriaeth, a chynhyrchu Cynllun Gweithredu Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a'i osod ar wefan y Llywodraeth.	Pennaeth AD
Datblygiad 20/21	O ganlyniad i bandemig Covid-19 mae'r Llywodraeth wedi gohirio'r terfyn amser adrodd ar gyfer adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2020. Er hyn mae'r Gwasanaeth wedi cynnal dadansoddiad o Fwlch Cyflog rhwng y Rhywiau a chynllun gweithredu. Cyhoeddwyd yr ystadegau ar wefan y Llywodraeth. Mae trafodaethau wedi parhau i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn mynd rhagddo yn ystod blwyddyn 2021/22 ar sail Cymru gyfan. Mae'r naratif i gefnogi'r ystadegau sy'n ymwneud â chyflog rhwng y rhywiau'n parhau. Unwaith y bydd wedi ei gwblhau, fe'i cyhoeddir ar wefan gwybodaeth y Gwasanaeth i'r holl staff ei weld.	Pennaeth AD
Gweithred	Parhau i adrodd am fylchau cyflog rhwng y rhywiau, anabledd, oed ac ethnigrwydd trwy'r Adroddiad Monitro Cyflogaeth Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Blynyddol gan sicrhau fod hyn yn cael ei adrodd yn ôl math o gytundeb, cytundebau parhaol a chyfnod penodol, llawn amser, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Bydd yr Adroddiad Cyflogaeth yn cael ei chyhoeddi yn haf 2021. Bydd yn cynnwys yr holl ddata cyflogaeth a welwyd gan Ddyletswydd Cydraddoldeb Cymreig Penodol 2011 gan sicrhau ei fod yn cael ei adrodd yn ôl math o gytundeb, cytundebau parhaol a chyfnod penodol, llawn amser, rhan amser a threfniadau gweithio hyblyg eraill.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Gweithred	Mae GTAGC yn weithlu gwrywaidd yn bennaf ac fe adlewyrchir hyn yn y chwarteli cyflog. Gyda mwy o ddynion yn y gweithlu mae'n debygol fod gwahaniaethau mewn cyflog yn ymddangos yn waeth. Er mwyn dileu bwlch cyflog rhwng y rhywiau dylid cael cyfradd gyfartal o ddynion a merched ymhob band. Cydnabyddir nad oes cynrychiolaeth gyfartal o ferched yn y gweithlu gweithredol ond mae'r gwaith ar weithred gadarnhaol ynglŷn â hyn yn uchel ar agenda GTAGC ac mae'n galonogol nodi fod y gwaith hwn wedi cael effaith ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r mwyafrif o'r staff nad ydynt yn staff gweithredol yn fenywaidd ac yn gweithio o dan amodau a thelerau'r Llyfr Gwyrdd. Mae'r swyddi hyn yn cynnig cyfradd cyflog is fel arfer. Mae cyflog a lwfansau'n wahanol dan bob cyfres o amodau a thelerau, sy'n egluro ymhellach y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o bosib. Mae GTAGC yn hyderus fod ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau'n ganlyniad o'r swyddi a wna dynion a merched o fewn y sefydliad a'r cyflogau a gynigir i'r swyddi hyn o ganlyniad i'r amodau a thelerau cyflogaeth, ac nid o ganlyniad i ryw y gweithwyr.	Pennaeth AD Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	O ganlyniad i bandemig Covid-19 mae'r Llywodraeth wedi gohirio'r terfyn amser adrodd ar gyfer 2020. Er hyn mae'r weithred yma wedi ei ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Cyflog Rhwng y Rhywiau. Cyhoeddwyd yr ystadegau ar wefan y Llywodraeth. Mae trafodaethau wedi parhau i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn mynd rhagddo yn ystod blwyddyn 2021/22 ar sail Cymru gyfan. Mae'r naratif i gefnogi'r ystadegau sy'n ymwneud â chyflog rhwng y rhywiau'n parhau. Unwaith y bydd wedi ei gwblhau, fe'i cyhoeddir ar wefan gwybodaeth y Gwasanaeth i'r holl staff ei weld.	Pennaeth AD

Blaenoriaeth 3 – Addysg		
Blaenoriaeth Cydraddoldeb 4 Trwy raglen gynhwysfawr o addysg a chyngor wedi'u teilwra a ddarperir ar sail unigol ac ar y cyd, i alluogi pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru i barhau i leihau eu lefel risg eu hunain rhag tân a pheryglon eraill yn ystod gwahanol gyfnodau o'u bywydau.		
Rheswm	• Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd am risgiau diogelwch drwy gynyddu darpariaeth Archwiliadau Diogel ac Iach, gyda 25% o'r archwiliadau yn cael eu cyflwyno i gartrefi a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall. • Cynyddu diogelwch pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru. Yn enwedig y rhai a welir i fod o risg uwch gan eu bod yn rhannu un neu fwy o'r nodweddion a warchodir. • Sicrhau fod staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n deall y Fodel Gymdeithasol o Anabledd.	
Gweithred	Dechrau rhaglen reolaidd o ymgysylltu gyda chymunedau/ysgolion/colegau penodol, a datblygu gweithdrefn benodol i'r math yma o ymgysylltu er mwyn sicrhau fod neges gyson a chynhwysol yn cael ei chyflwyno ar bob cyfle.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae hon yn un o ddyletswyddau craidd Addysgwyr y Gwasanaeth ond hyd yn hyn eleni, bu raid i weithgaredd y flwyddyn ddod i ben o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Ni wyddom hyd yma pryd fydd y weithgaredd yma'n ail-ddechrau. Nid yw ysgolion yng Ngogledd Cymru mewn sefyllfa i ganiatáu ail-ddechrau ymweliadau wyneb yn wyneb gan addysgwyr. Mae pob cyflwyniad i ysgolion yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn rai rhithiol.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Sicrhau fod yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir yn yr ysgolion ar gael mewn fformat addas i'w defnyddio gan blant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol, a bod ein staff wedi eu hyfforddi'n briodol i allu cyflwyno'r fformatiau hyn.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae sicrhau adnoddau yn anhawster drwy Gymru gyfan. Mae gwaith yn y broses o gael ei wneud i asesu'r angen. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir yn ystod ymweliad yn cael eu dewis yn ôl profiad yr addysgwr, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw angen penodol yn y gynulleidfa.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Gwerthuso effaith ac effeithlonrwydd negeseuon ac ymgyrchoedd diogelwch cyfredol yn enwedig y rhai sydd mewn mwy o risg gan eu bod yn rhannu un neu fwy o nodweddion a warchodir.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Datblygiad 20/21	Mae pob landlord eiddo preswyl wedi cael eu hysbysu o'r angen i ddarparu gwybodaeth gadael adeilad ac yn arbennig, Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEPs). Cyflwynir y Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng i unigolion sydd mewn mwy o risg o dân o ganlyniad i nodweddion a warchodir. Mae GTAGC yn monitro argaeledd y Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng trwy'r rhaglen archwilio. Mae'r grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys unigolion allweddol o draws doriad o swyddogaethau GTA. Mae'r calendr ymgyrchoedd yn cael ei greu yn flynyddol. Crëir negeseuon ac ymgyrchoedd, yn seiliedig ar ddata am achosion tân.	Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygiad
Gweithred	Hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg staff o'r Model Cymdeithasol o Anabledd.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Gosodwyd cyfres o Daflenni Gwybodaeth am Gydraddoldeb ar y wefan dan bob un o'r nodweddion a warchodir, hefyd mae copi o ddogfen yn egluro'r Model Gymdeithasol o Anabledd ar dudalen gydraddoldeb y fewnrwyd.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb

Blaenoriaeth 4 – Diogelwch Personol		
Blaenoriaeth Cydraddoldeb 5 Lleihau y risg o farwolaeth neu anaf oherwydd tanau i bobl yng Ngogledd Cymru sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig gwahanol trwy ddarparu gwasanaethau effeithiol ar gyfer atal ac amddiffyn ac ymateb brys i ddigwyddiadau tân ac achub.		
Rheswm	• Deall yn well anghenion, a chynyddu diogelwch pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â Gogledd Cymru, yn enwedig y rhai a welir i fod o risg uwch gan eu bod yn rhannu un neu fwy o'r nodweddion a warchodir neu gan eu bod yn byw mewn cartref incwm isel o ganlyniad i'w hamgylchiadau.	
Gweithred	Ymgorffori dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r canlynol yn yr Archwiliadau Diogel ac Iach: • Trosedd casineb/cyfeillio • Camdriniaeth o bobl hŷn • Camdriniaeth ddomestig • Caethwasiaeth fodern	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae holl staff yr adran wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ymwneud â diogelu, ac yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Mae'r staff yn ymwybodol o'r mecanweithiau atgyfeirio y mae'n rhaid eu defnyddio. Mae holl staff yr adran wedi derbyn hyfforddiant diogelu a 'Gofyn a Gweithredu'.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Datblygu ymhellach ddealltwriaeth well ynglŷn ag anghenion penodol dioddefwyr trais domestig o fewn grwpiau sydd wedi eu tan gynrychioli.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae holl staff yr adran wedi derbyn hyfforddiant diogelu a 'Gofyn a Gweithredu'. Nid yw'r hyfforddiant hwn yn benodol i grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli ond mae yn berthnasol i'r gymuned gyfan.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Adolygu'r modd yr ydym yn cefnogi busnesau lleol i leihau'r risg o dân ac i barhau i gydymffurfio gyda deddfwriaeth diogelwch tân i sicrhau fod yr holl wybodaeth a roddwn yn addas ac mewn fformat hygyrch.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Roedd GTAGC wedi lleihau'r nifer o ymweliadau o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19. Parhaodd ymgysylltiad drwy'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd archwiliad o bell mewn sawl eiddo.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân

Blaenoriaeth 5 – Cyfranogiad a Chyfathrebu		
Blaenoriaeth Cydraddoldeb 6 Cyfranogiad a Chyfathrebu Trwy fod yn agored ac yn atebol am yr hyn a wnawn a'r hyn a gynllunir, annog mwy o bobl i ymwneud gyda'r broses o benderfynu sut mae'r gwasanaethau tân ac achub yn cael eu cynnig yng Ngogledd Cymru a cheisio cynyddu'r ystod o bobl sy'n cyfrannu at y broses honno.		
Rheswm	• Ymestyn y dulliau yr ydym yn ymgysylltu gyda chymunedau gan eu hannog i gyfranogi yn y modd y mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn cael eu datblygu a'u cyflwyno. • Cynyddu'r nifer o grwpiau amrywiol sy'n ymwneud yn weithredol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.	
Gweithred	Deall y proffil cymunedol yn well er mwyn adnabod anghenion ein cwsmeriaid a sut y gallwn wella cyfathrebu ac ymwneud gyda'r Gwasanaeth.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Ychwanegodd y Grŵp Llywio Ymgyrchoedd gategori arbennig ar gyfer 'cynhwysiant, amrywiaeth a dathliadau crefyddol' i'r calendr eleni. Mae'r categori hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r holl ymgyrchoedd a gynhelir yn ystod y flwyddyn. Mae GTAGC yn parhau i ymgysylltu gyda'r gymuned fusnes drwy'r cyfryngau cymdeithasol i'w gwneud yn ymwybodol o'r dewisiad iaith ar wefan GTAGC.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Adnabod grwpiau cymdeithasol sy'n cynrychioli amrywiaeth lawn y bobl sy'n byw yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Datblygu pob modd o gyfathrebu gyda hwy, unai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill. Rhannu'r sianeli cyfathrebu hyn gyda staff sy'n gweithio yn y gymuned.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, sydd wedi bod yn cyfarfod bob dau fis ar Teams, wedi nodi Ymgysylltu â grwpiau sydd wedi eu tan gynrychioli fel un o'u prif amcanion am y flwyddyn i ddod. Mae ymgysylltiad gyda'r grwpiau hyn wedi profi'n anodd yn ystod y pandemig ond gobeithir y bydd rhyw fath o ymgysylltu'n cael ei drefnu a'i amserlennu o fewn y flwyddyn i ddod.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn aelod allweddol o'r grŵp Llywio Ymgyrchoedd.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Sicrhau fod y Gwasanaeth yn cael ei gynrychioli mewn cymaint o fforymau a digwyddiadau ag sy'n bosibl er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ryngweithio gyda grwpiau sydd wedi eu tan gynrychioli.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Datblygiad 20/21	O ganlyniad i Covid–19 ni chynhaliwyd digwyddiadau cenedlaethol a lleol. Cyfarfu Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, sydd wedi bod yn cyfarfod bob dau fis ar Teams ac mae gwaith y grŵp hwn yn parhau. Mae ymgysylltiad gyda grwpiau isel eu cynrychiolaeth wedi cael ei nodi gan y grŵp fel un o'r amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Mae Covid-19 wedi rhwystro pob ymgysylltiad wyneb yn wyneb yn ystod 2020/21. Mae rheolwyr partneriaeth wedi ymgysylltu gyda phartneriaid drwy ddulliau rhithiol er mwyn ceisio cynnal yr ymgysylltiad.	Uwch Reolwr Diogelwch Tân

Gweithred	Parhau i edrych ar y dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu drwy ein cysylltiadau presennol gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol. Adnabod ymhellach grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli amrywiaeth y cyhoedd sy'n byw yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Annog y grwpiau hyn i gymryd rhan weithredol pan fyddwn yn ymgynghori ar ein Cynlluniau a'n Amcanion Strategol.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Datblygiad 20/21	Cydlynir ymgyrchoedd diogelwch cymunedol drwy ein Grŵp Llywio Ymgyrchoedd ac mae'r gwaith hwn wedi parhau gydag addasiadau drwy gyfnod Covid-19. Amserlenir yr ymgyrchoedd a darperir adnoddau addas ar eu cyfer ar gyfer y flwyddyn i ddod gydag amcanion clir a gwerthusiad ar ôl yr ymgyrch. Ystyrir dulliau addas o gyfathrebu fel rhan o'r strategaethau a fabwysiedir a chydweithir gyda phartneriaid yng Ngogledd Cymru a chyda phartneriaid GTA yng Nghymru fel bo'n addas. Ers Covid-19 mae'n amlwg bod mwy o bwyslais wedi bod ar gyfathrebu rhithiol ac ar-lein a disgwylir y bydd hyn yn parhau wrth i ni ddod allan o'r cyfnod clo a thu hwnt gyda GTAGC yn chwilio am y dulliau gorau i gynnig Archwiliadau Diogel ac Iach a rhaglenni addysgol yn y dyfodol a bydd y swyddogaeth gyfathrebu'n ceisio cefnogi hyn. Bydd cyflawni amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cyflawni fel rhan o'r ddarpariaeth.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol Uwch Reolwr Diogelwch Tân
Gweithred	Trefnu digwyddiadau cymunedol yn cynnwys dyddiau agored yn ein gorsafoedd tân lle gall ein staff rheng flaen ymgysylltu ac adeiladu perthynas gyda'r gymuned leol, er mwyn hybu cyfleodd gyrfaol, rhaglenni Cadetiaid a chynlluniau prentisiaid; a chynnig cyngor diogelwch tân er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd am risg.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Datblygiad 20/21	Mae digwyddiadau ac ymgyrchoedd wyneb yn wyneb wedi eu gohirio ac mae gwaith wedi ei wneud i weld sut gellir eu cyflwyno'n rhithiol ac ar-lein. Cynhaliwyd ein Diwrnod Agored Rhithiol cyntaf ar ddiwedd 2020 fel digwyddiad peilot ac roedd yn llwyddiannus iawn a chafodd dderbyniad da. Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn, rydym wrthi'n trefnu digwyddiad agored rhithiol arall i annog recriwtio diffoddwyr tân gan nad yw'r dyddiau agored arferol yn y gorsafoedd tân yn bosibl ar hyn o bryd.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Gweithred	Sicrhau fod y wefan a'r holl ddulliau o gyfathrebu ar y wefan (arolygiadau, ffurflenni ayb) yn gwbl hygyrch, a'n bod yn cynnig neges diogelwch tân mewn ieithoedd a fformatiau eraill.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Gweithred	Yn ddiweddar rydym wedi symud o ddefnyddio 'Readspeaker' i 'Recite Me' fel offeryn hygyrch ar ein gwefan sy'n gwella hygyrchedd ymhellach e.e. mwy o ieithoedd. Mae ein gwefan wedi cael adolygiad hygyrchedd lawn yn ddiweddar yn unol â gofynion statudol sydd wedi arwain hefyd at fabwysiadu gwelliannau hygyrchedd pellach.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Gweithred	Parhau i hybu ein hymroddiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy ein proses gaffael ac yn ein perthynas gyda chyflenwyr a chontractwyr.	Pennaeth Cyllid
Datblygiad 20/21	Mae'r mwyafrif o gaffael gan y Gwasanaeth yn dilyn llwybrau caffael cyhoeddus sydd wedi eu hymsefydlu, drwy Fframweithiau yn ogystal â chydweithio gyda Gwasanaethau Tân dros Gymru, sydd â staff caffael arbenigol i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.	Pennaeth Cyllid

Gweithred	Cryfhau'r broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau fod yr holl bolisïau, cynlluniau a phrosesau yn gynhwysol o'r holl nodweddion a warchodir, yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Datblygiad 20/21	Bydd y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol yn cael ei hystyried yn erbyn penderfyniadau sefydliadol strategol, mae wedi cael ei ymgorffori yn nhempled Asesiad o Effaith Integredig y Gwasanaeth.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb